www.xtrapapers.com

| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

CBAC WJEC

# TGAU

4277/51

## HANES
## UNED 1/UNED 2: Mudiadau'r Bobl yng Nghymru a Lloegr, 1815-1848

P.M. DYDD LLUN, 2 Mehefin 2014

1 awr 15 munud

| I'r Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
| 1. | 25 | |
| 2. | 15 | |
| 3. | 10 | |
| SAG | 3 | |
| Cyfanswm | 53 | |

4277 510001

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

**Atebwch BOB cwestiwn ar y papur arholiad.**

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch daflenni ychwanegol os nad oes digon o le yn y llyfryn hwn. Ysgrifennwch eich enw ar ben pob taflen ychwanegol, gan ddangos yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch y taflenni ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei ystyried wrth asesu'r atebion sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1*(d)* a 3.

**Hefyd, bydd eich gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 3.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

**CWESTIWN 1**

**Mae'r cwestiwn hwn yn ymchwiliad i dwf Radicaliaeth, 1815-1822.** [25]

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell.

**Ffynhonnell A**



[Darlun yn dangos Cynllwynwyr Cato Street yn cael eu harestio]

*(a)* Beth mae Ffynhonnell A yn ei ddangos i chi am Gynllwyn Cato Street? [2]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell B**

Er bod y Llywodraeth yn anhapus â'r hyn ddigwyddodd yn Peterloo, doedd ganddi ddim dewis ond cefnogi ynadon Manceinion. Gwrthododd y Llywodraeth gynnal ymchwiliad i Peterloo ac yn lle hynny pasiodd y Chwe Deddf. Gwnaeth y deddfau hyn helpu i rwystro twf y mudiad Radicalaidd.

[Rhan o werslyfr modern ar gyfer ysgolion]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B a'r hyn rydych chi'n ei wybod i egluro pam gwnaeth y Llywodraeth basio'r Chwe Deddf. [4]

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

4277
510003

www.xtrapapers.com





**Ffynhonnell C**

Annwyl Dad a Mam,
Rydw i wedi cyrraedd y dref hon heno. Mae'r milwyr wedi bod yn cadw golwg arnon ni yr holl ffordd. Rydyn ni'n gallu gweld yn iawn eu bod yn benderfynol o'n stopio ac mae llawer iawn ohonon ni wedi cael ein rhoi yn y carchar. Mae eu cleddyfau yn fflachio uwch ein pennau, ond rydw i'n dal mewn hwyliau da, er y gallwn fod yn y carchar ymhen deng munud. Rydw i'n Radical go iawn o hyd a does dim ots gen i pwy sy'n gwybod hynny.

[Nodyn gafodd ei ddarganfod ym mhoced un o'r Blancedwyr ifanc pan gafodd ei arestio yn Ashburn, Swydd Derby (Mawrth 1817)]

*(c)* I ba raddau mae Ffynhonnell C yn cefnogi'r safbwynt bod yr awdurdodau wedi ymateb yn llym i Orymdaith y Blancedwyr? [5]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell CH**

Dyma un o'r cyfarfodydd tawelaf a mwyaf trefnus a welais i erioed. Roedd o leiaf 300,000 o bobl yno. Fodd bynnag, aeth Gwŷr Meirch yr Iwmyn (*Yeomanry Cavalry*) ymlaen â'u hymosodiad yn hollol wyllt; cafodd dynion, menywod a phlant eu torri lawr ganddyn nhw a dechreuon nhw ar ymosodiad oedd wedi'i gynllunio ymlaen llaw, gydag awch *(thirst)* am waed a dinistr. Fe ddylen nhw gael medal. Ar un ochr dylid ysgrifennu 'Llofruddion Manceinion' ac ar yr ochr arall dylid rhoi disgrifiad o'r ffordd y gwnaethon nhw ladd dynion, menywod a phlant diamddiffyn *(defenceless)* heb achos a heb angen.

[Richard Carlile, un o'r prif siaradwyr Radicalaidd yn St Peter's Field, yn ysgrifennu ei adroddiad o Gyflafan Peterloo. Ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, ar 18 Awst 1819, cafodd yr adroddiad ei argraffu yn y papur newydd wythnosol oedd yn cael ei gyhoeddi gan Carlile]

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell CH i hanesydd sy'n astudio'r digwyddiadau yn St Peter's Field ar 16 Awst 1819? [6]

*[Eglurwch eich ateb drwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod.]*

4277 510005

www.xtrapapers.com





Mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn rhoi safbwyntiau gwahanol am y rhesymau dros yr aflonyddwch ym Mhrydain ar ôl 1815.

**Ffynhonnell D**

Yr adeg honno, rhwng Tachwedd a Rhagfyr 1816, daeth gwaith yr awdur William Cobbett yn boblogaidd iawn yn sydyn. Roedd ei waith yn cael ei ddarllen ymhob bwthyn bron yn yr ardaloedd diwydiannol. Roedd e'n dweud yn gywir wrth ei ddarllenwyr mai gwir achos eu dioddefaint oedd llywodraeth ddrwg ac mai'r unig ateb oedd diwygio'r senedd.

[Samuel Bamford, un o'r Radicaliaid, yn ysgrifennu yn ei hunangofiant, *Passages in the Life of a Radical*, a gafodd ei gyhoeddi yn 1843]

**Ffynhonnell DD**

Prif achos y protestio a'r aflonyddwch *(unrest)* yn y cyfnod hwn oedd caledi economaidd. Gyda'r rhyfel nawr wedi dod i ben, doedd dim angen arfau na gwisgoedd milwrol ar y llywodraeth bellach. Cafodd 400,000 o gyn-filwyr eu gwneud yn ddi-waith. Yn 1815-1816 aeth cyflogau i lawr, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. O ganlyniad i hyn, cynyddodd diddordeb unwaith eto mewn diwygiad o bob math.

[Eric Evans, hanesydd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr ar gyfer myfyrwyr prifysgol, *Britain before the Reform Act: Politics and Society 1815-1832* (1989)]

*(d)* Pam mae Ffynonellau D ac DD yn rhoi safbwyntiau gwahanol am y rhesymau dros yr aflonyddwch ym Mhrydain ar ôl 1815? [8]

*[Yn eich ateb dylech gyfeirio at gynnwys y ffynonellau a'r awduron hefyd.]*

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**DIWEDD CWESTIWN 1**

25

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig

## CWESTIWN 2

**Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am brotestiadau diwydiannol yng Nghymru a Lloegr yn yr 1830au a'r 1840au.** [15]

*(a)* Disgrifiwch beth ddigwyddodd y tu allan i'r Castle Inn, Merthyr Tudful, ym mis Mehefin 1831. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

(*b*) Eglurwch pam methodd mudiad y Siartwyr â chyflawni ei amcanion. [5]

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*(c)* Pam roedd y meistri haearn yn bwysig yn ystod Gwrthryfel Merthyr? [6]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**DIWEDD CWESTIWN 2**

15

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig

## CWESTIWN 3

**Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am y pwysau ar fywyd gwledig yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn.** [10 + 3]

A oedd y protestiadau gwledig yng Nghymru a Lloegr yn yr 1830au a'r 1840au yn llwyddiannus? [10]

*Yn eich ateb dylech drafod:*

- *llwyddiannau'r protestiadau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a Lloegr yn yr 1830au a'r 1840au;*
- *ffyrdd yr oedd protestiadau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a Lloegr wedi methu yn yr 1830au a'r 1840au.*

*Yn y cwestiwn hwn, mae marciau'n cael eu rhoi am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.* [3]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**DIWEDD CWESTIWN 3**

| |
|---|
| |
| 10 |

**DIWEDD Y PAPUR**

| |
|---|
| |
| SAG 3 |